

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG
1^{af} Rhagfyr, 2014.

CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

Mrs Emma Wilkins – Swyddog Cymorth i'r Cabinet

1 DIBEN YR ADRODDIAD.

- 1.1** Atgoffa Aelodau o Gylch Gorchwyl a diben y Grŵp Llywio yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn rhan o Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yr Arweinydd, gan gynnwys aelodaeth ac amserlen y cyfarfodydd.

2 CYLCH GORCHWYL

- 2.1** Cylch Gorchwyl: Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae dwy egwyddor yn sail i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Dylai personau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3 DIBEN Y GRŴP

- 3.1** Y Grŵp Llywio:-

- Wedi ei sefydlu i sicrhau ymagwedd awdurdod-gyfan wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol y Safonau Statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg / Cynllun Iaith Gymraeg statudol.
- Bydd yr aelodau yn rhoi cyfeiriad strategol o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth / polisiau a nodwyd uchod ynghyd ag unrhyw bolisiau lleol ynglŷn â'r Gymraeg a chefnogi Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i gyflawni ei dyletswyddau.
- Bydd yr aelodau yn ystyried sut gall y Grŵp gefnogi mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

4 AELODAETH

- 4.1** Yn unol â'r hyn sy wedi'i amlinellu yng Nghynllun Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yr Arweinydd, bydd yr aelodau Cabinet canlynol yn rhan o'r

Grŵp: Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins (Cadeirydd), (Mrs) E. Hanagan (Is-Gadeirydd), R.Bevan a (Mrs) M.Webber

- 4.2 Yn ystod cyfarfod o Gyngor Rhondda Cynon Taf ar 24^{ain} Medi, 2014, estynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins wahoddiad i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Cennard Davies i ddod yn aelod o'r Grŵp Llywio. Cafodd y gwahoddiad hwnnw ei dderbyn.
- 4.3 O ran cynrychiolaeth o du Swyddogion y Cyngor, dylai'r Grŵp gynnwys cynrychiolaeth gan un o Gyfarwyddwyr Cyfadrannau'r Cyngor (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes ar hyn o bryd), swyddogion eraill, ynghyd â chynrychiolaeth corff cyfrwng Cymraeg allanol.
- 4.4 Bydd y Grŵp yn cynnwys Pennaeth Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, a Phennaeth Gwasanaeth Addysg yn y Gymuned (ar hyn o bryd)
- 4.5 O ran cynrychiolaeth allanol, y bwriad ydy gwahodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf i fynychu'r Grŵp Llywio. Byddai hyn yn fodd i Fenter Iaith ac Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i drafod materion sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned ar lefel strategol ac i weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau gwell i gleientiaid

5 HYRWYDDWYR

- 5.1 Aelod o'r Cabinet fydd yn Cadeirio'r Grŵp Llywio a hefyd yn Hyrwyddwr y Gymraeg o du'r Cynghorwyr.
- 5.2 Y Cyfarwyddwr Cyfadrannau fydd Hyrwyddwr y Gymraeg o du'r Swyddogion.
- 5.3 Bydd y ddau Hyrwyddwr yn codi proffil unrhyw ddeddfwriaeth a pholisiau perthnasol ar lefel Cabinet a Charfan Rheoli Corfforaethol yn ogystal â rhoi sylw i feysydd cymhleth sy'n codi yn y Cyfadrannau a'u meysydd gwasanaeth, o ran darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae'r swyddogaeth yn elfen annatod o ran ceisio cefnogaeth i ddeddfwriaeth a pholisiau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar y lefel uchaf.

6 AMSERLENNI'R CYFARFODYDD

- 6.1 Bydd cyfarfodydd bob chwe mis oni chytunir fel arall gan y Grŵp Llywio.
- 6.2 I hwyluso dyddiaduron Aelodau, bydd dau gyfarfod yn cael eu trefnu yn ystod y flwyddyn ddinesig, yn dilyn cytuno ar galendr o gyfarfodydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2015.

6.3 Bydd cyfarfodydd pellach o'r Grŵp yn cael eu cynnal yn ôl y galw, os oes materion penodol i'w trafod.

7 ARGYMHELLION.

7.1 Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

- a) Nodi cynnwys yr Adroddiad
- b) Cytuno ar y Cylch Gorchwyl fel sy wedi'i nodi yng Nghynllun Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yr Arweinydd ac uchod.